enterprise@cambria.ac.uk

# Menter ac Entrepreneuriaeth Ieuenctid
# Adroddiad Effaith, 2024 - 25

**Ein gweledigaeth:**
Rhagori ar ddisgwyliadau trwy addysg, arloesedd ac ysbrydoliaeth…

**Ymgysylltu**
Wedi ymgysylltu **6864** o ddysgwyr sydd wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau hyrwyddo.
**Grymuso**
Wedi grymuso **2049** o ddysgwyr sydd wedi cymryd rhan mewn cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau entrepreneuriaeth yn cynnwys y gweithdai Model Rôl Syniadau Mawr Cymru.
**Paratoi**
Wedi paratoi **18** o ddysgwyr wnaeth gymryd camau cadarnhaol at redeg busnes.
**Dechrau Busnesau:**
7 o Grantiau Dechrau Busnesau i Bobl Ifanc wedi cael eu dyfarnu gan Syniadau Mawr Cymru.

## Datblygu Arweinwyr y Dyfodol: Grymuso Myfyrwyr Trwy Sgiliau Entrepreneuriaeth

O ganlyniad i'r Argyfwng Costau Byw parhaus mae nodweddion entrepreneuriaeth wedi dod i'r amlwg fel sgiliau bywyd hanfodol gan helpu ein dysgwyy yng Ngholeg Cambria i lwyddo y tu hwnt i'w hastudiaethau. Mae cyllid y Biwro Cyflogaeth a Menter wedi bod yn allweddol mewn creu cyfleoedd i fyfyrwyr i ddatblygu a defnyddio galluoedd hanfodol fel creadigrwydd, meddwl yn rhagweithiol, yn arloesol, datrys problemau, rheoli amser a gwytnwch.

Mae Coleg Cambria wedi ymrwymo i feithrin pobl ifanc hunangynhaliol sy'n ymgymryd â gweithgareddau entrepreneuraidd ac arloesol a fydd yn gyrru ffyniant economaidd a chymdeithasol Gogledd Ddwyrain Cymru.  Mae'r fenter hon sydd wedi'i hariannu wedi datblygu awydd sylweddol mewn dysgu gweithgareddau entrepreneuraidd ledled y sefydliad.  Trwy rymuso staff ac adrannau i arwain ymgysylltiad â rhanddeiliaid allanol, a gyda chefnogaeth ymroddedig Hyrwyddwr Entrepreneuriaeth llawn amser, rydym wedi llwyddo i gyflymu uchelgeisiau entrepreneuraidd myfyrwyr a dyfnhau eu dealltwriaeth o entrepreneuriaeth gymdeithasol. Mae'r ffigurau uchod yn dangos effaith ddofn y prosiect hwn wrth feithrin cenhedlaeth newydd o feddylwyr entrepreneuraidd sy'n barod i wneud cyfraniad cadarnhaol i'w cymunedau.

**Ein Blaenoriaethau** yw:

- **Rhoi hwb i ymrwymiad mewn entrepreneuriaeth a menter gymdeithasol:** Ein nod yw codi ymwybyddiaeth ac annog diddordeb mewn dechrau busnesau newydd ymysg ein dysgwyr a'n staff gan feithrin mwy o gyfranogiad.
- **Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru:** Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu siwrnai glir i gwsmeriaid sy'n hyrwyddo'r Gymraeg fel sgil gwaith hanfodol ac yn dathlu diwylliant a threftadaeth Cymru ar yr un pryd.
- **Arwain gydag arloesi digidol:** Cadw ar flaen y gad gyda chyfathrebu â dysgwyr a gweithio'n effeithiol trwy ddefnyddio technolegau digidol.
- **Cryfhau partneriaethau allanol:** Rydym yn blaenoriaethu cydweithio â phartneriaid a rhanddeiliaid allanol gan drefnu sgyrsiau, ymweliadau a theithiau dylanwadol.
- **Cyfuno entrepreneuriaeth i bobl ifanc gyda dysgu:** Rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio darpariaethau entrepreneuriaeth i bobl ifanc yn uniongyrchol yn ein fframweithiau dysgu ac addysgu.
- **Tynnu sylw at, a chynyddu ymwybyddiaeth o fuddion amlwg ymarferion busnes cynhwysol.** Ein nod yw meithrin dealltwriaeth sylweddol o ddiwylliannau amrywiol ac i amlygu'r manteision cymdeithasol ac economaidd sylweddol y mae'r rhain yn ei gyflwyno i entrepreneuriaid.  Trwy hyrwyddo cynhwysiant rydym yn grymuso unigolion i drosoleddu safbwyntiau unigryw, i yrru arloesi a chreu tirwedd entrepreuneuraidd mwy cyfiawn a llewyrchus.

Mae rhaglen mentergarwch ac entrepreneuriaeth Coleg Cambria wedi cyflawni ei amcanion yn llwyddiannus gan feithrin dysgwyr sy'n hunangynhaliol, arloesol ac entrepreneuraidd. Mae'r fenter hon wedi paratoi staff ac adrannau i greu cysylltiadau cryf gyda rhanddeiliaid allanol yn cynnwys aelodau hanfodol o'r gymuned.  Mae hynny wedi arwain at uchelgais entrepreneuraidd ymysg myfyrwyr a dealltwriaeth ehangach o rôl hanfodol bwysig entrepreneuriaeth gymdeithasol.

Nod ganolog i'r prosiect hwn yw codi ymwybyddiaeth o entrepreneuriaeth a mentergarwch cymdeithasol ymysg yr holl ddysgwyr a staff yng Ngholeg Cambria. Rydym wedi cyflawni hyn trwy ystod o fentrau trawiadol. Mae myfyrwyr wedi elwa o weithdai rhyngweithiol, siaradwyr gwâdd sy'n ysbrydoli a heriau mentergarwch sy'n sbarduno diddordeb. Rydym hefyd wedi creu cyfleoedd ymarferol dan arweiniad y myfyrwyr fel yr Her £10, Materion Ariannol a Siop Gyfnewid sy'n galluogi dysgwyr i ddefnyddio eu sgiliau mewn sefyllfaoedd byd go iawn. Ar ben hynny mae'r prosiect yn dangos ymrwymiad cadarn i hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant a threftadaeth Cymru gan adeiladu ar lwyddiant ein digwyddiadau 'Culture Collective'.

Mae cydweithio gyda phartneriaid allanol wedi bod yn gonglfaen i'r prosiect hwn. Rydym wedi creu partneriaethau cadarn gyda busnesau lleol a dielw. Mae'r cydweithio yn cynnig adnoddau amhrisiadwy i'n dysgwyr gan gynnwys ymweliadau cwmnïau, cyfleoedd mentora, cyllido a chyfleoedd rhwydweithio hanfodol.

Rydym wedi cynnwys egwyddorion entrepreneuriaeth trwy ein cwricwlwm gan roi'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i ddysgwyr sydd o bosib eisiau dechrau a rheoli busnes eu hunain.

Tu hwnt i ddysgu yn y dosbarth mae'r fenter yn annog myfyrwyr i ddatblygu eu syniadau busnes eu hunain a chynnig cymorth ymroddedig i'r rheiny sy'n edrych ar hyfywedd eu mentrau yn y dyfodol. Rhaglenni fel yr Her £10 a'r Rhaglen Cwmni Menter Ieuenctid yn enghreifftiau gwych o sut yr ydym yn cynnig profiad ymarferol ac yn meithrin meddwl entrepreuneuraidd go iawn ymysg ein myfyrwyr.

**Hyrwyddo Entrepreneuriaeth yng Ngholeg Cambria**

Cafodd entrepreneuriaeth ei hyrwyddo i ddysgwyr yng Ngholeg Cambria trwy ystod amrywiol o fentrau ymrwymo:

- **Cymorth Campws Cyfan:** Ffeiriau'r Glas a diwrnodau/nosweithiau agored ledled yr holl safleoedd.
- **Cystadlaethau Ysbrydoli Sgiliau Cymru** - cystadleuaeth Mentergarwch ymroddedig i'r rheiny gyda syniad busnes go iawn.
- **Heriau mentergarwch ymarferol:** Mentrau "Materion Ariannol" a Heriau £10.
- **Ymrwymiad Diwylliannol a Chymdeithasol:** Digwyddiadau "Culture Collective", Wythnos Llesiant, Wythnos Iechyd Meddwl, CambriaFest ac Wythnos Menter Fyd Eang.
- **Rhaglenni Mentergarwch Strwythuredig** Rhaglen Menter yr Ifanc ac amrywiaeth o ddigwyddiadau mentergarwch cymdeithasol/siop gyfnewid.
- **Cymorth ymrwymedig:** Ein Swyddog Menter Myfyrwyr.
- **Mentora Ysbrydoledig:** Gweithdai, sgyrsiau a gweithgareddau Model Rôl Syniadau Mawr Cymru ynghyd â Gweithdai Mentora Busnes a Dechrau Busnes.
- **Dysgu drwy Brofiad:** Siwrnai Dysgu Entrepreneuraidd yn cynnwys

ymweliadau â NetWorld Sports, Agri-Cation, Park in the Past ac Alderford Lake.
- **Cyfleoedd yn y Farchnad:** Marchnadoedd Nadolig a marchnadoedd dros dro.
- **Digwyddiadau arbennig:** h.y. Diwrnod Cyfoethogi Llaneurgain, CamFest.

Mae ein hymrwymiad i feithrin naws entrepreneuraidd yng Ngholeg Cambria i'w weld yn amlwg ar ein platfformau digidol. Mae negeseuon blog Llais Myfyrwyr yn hyrwyddo ystod eang o weithgareddau a chyfleoedd entrepreneuraidd i'r holl fyfyrwyr a staff. Mae'n cynnwys popeth o gystadlaethau mentergarwch, digwyddiadau, gweithdai, heriau a chyfleoedd cyffredinol.

Ar gyfer staff mae ein sianel Happeo yn adnodd hanfodol i hyrwyddo cyfleoedd i unigolion a dosbarthiadau. Mae'n cael ei ddefnyddio'n aml i dynnu sylw at lwyddiannau, dathlu cyraeddiadau ac ymrwymo cynulleidfaoedd newydd gydag ymdrechion entrepreneuraidd cyffrous sy'n mynd ymlaen ar hyd y coleg.

Mae'r Rhaglen Model Rôl Syniadau Mawr Cymru yn parhau i fod yn wasanaeth deinamig a thrawiadol y mae ein holl safleoedd yn elwa ohoni. **Cyfanswm o 109 o weithgareddau Model Rôl Syniadau Mawr** wedi'u cyflwyno yn ystod y flwyddyn academaidd.

Gweithgaredd/gweithdy model rôl fesul safle:

| **Iâl** | **Llaneurgain** | **Ffordd y Bers** | **Glannau Dyfrdwy** | **Llysfasi** |
|---|---|---|---|---|
| **41** | **17** | **19** | **28** | **4** |

Mae entrepreneuriaeth yn Cambria yn canolbwyntio ar feithrin sgiliau cyflogadwyedd ymysg ein myfyrwyr gan gynnwys creadigrwydd, cyfathrebu cadarn a meddylfryd cadarnhaol a sgiliau trefnu gwych. Rydym yn falch o gynnal amryw o ddigwyddiadau byw, cyfleoedd i wirfoddoli a chyfleoedd profi yn fasnach i gyflawni'r targedau hyn.

- **Llwyddiant Menter yr Ifanc:** https://www.cambria.ac.uk/ein-mae-myfyrwyr-mentrus-yn-anelun-uchel-ar-ol-cyrraedd-rowndiau-penderfynu-dysgu-addysgiadol/?lang=cy
- **Wythnos Entrepreneuriaeth Byd-Eang:** https://www.cambria.ac.uk/mae-cannoedd-o-ddysgwyr-a-staff-yng-ngholeg-cambria-wedi-cymryd-rhan-mewn-dathliad-o-fusnes-ac-arloesedd/?lang=cy
- **Business in the News:** https://businessinthenews.co.uk/2025/01/21/hundreds-of-learners-join-celebration-of-entrepreneurship-in-wrexham-and-flintshire
- **Evening Leader:** https://www.leaderlive.co.uk/news/24872567.coleg-cambria-celebrates-global-entrepr

eneurship-week/

- **Diwylliant Cymru ac entrepreneuriaeth:** https://www.cambria.ac.uk/dychwelodd-canwr-gyfansoddwr-talentog-ir-coleg-i-ddathlu-diwylliant-cymru/?lang=cy